



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Adroddiad a Hysbysiad Penderfynu Ymchwiliad:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyfeirnod: CS1376

Dyddiad: 03 Gorffennaf 2026

Cyhoeddir yr adroddiad hwn o dan bwerau Comisiynydd y Gymraeg i ymchwilio o dan Ran 5 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Cynhaliwyd yr ymchwiliad hwn o dan adran 71 y Mesur. Y ddogfen hon yw adroddiad a hysbysiad penderfynu yr ymchwiliad at bwrpas adran 73, 74 a 75 y Mesur.

Cynnwys

1	Crynodeb gweithredol	3
2	Sail yr ymchwiliad	6
3	Crynodeb o'r dystiolaeth	7
4	Canfyddiadau a dyfarniad	10
5	Gweithredu pellach	18
	Atodiad 1: Cylch gorchwyl yr ymchwiliad	19
	Atodiad 2: Gwybodaeth am yr hawl i apelio	22

1 Crynodeb gweithredol

Derbyniwyd cwyn yn erbyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn perthynas â'i ddogfen ymgynghori ar newid polisi cludiant ysgol yn 2024. Honnodd yr achwynydd nad oedd y Cyngor wedi ystyried, nac wedi darparu tystiolaeth ei fod wedi ystyried, effaith y cynigion ar y Gymraeg fel rhan o'r ddogfen ymgynghori, ac felly ei fod wedi methu â chydymffurfio â Safonau 91–93 o safonau'r Gymraeg.

Bu'r ymchwiliad yn ystyried cynnwys y ddogfen ymgynghori *Teithio gan Ddysgwyr*, a oedd yn amlinellu pump o gynigion posibl ar gyfer newid y polisi, ynghyd â'r cwestiynau a ofynnwyd drwy'r arolwg digidol, a'r dystiolaeth a'r dogfennau ychwanegol a ddarparwyd gan yr achwynydd a'r Cyngor.

Canfuwyd fod y Cyngor wedi ceisio barn y cyhoedd am effeithiau'r cynigion ar y Gymraeg drwy gynnwys cwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, ni chafodd y cyhoedd eu cyflwyno i unrhyw ystyriaeth gydwybodol gan y Cyngor ei hun o effeithiau posibl y gwahanol gynigion ar y Gymraeg. O ganlyniad, nid oedd modd i'r cyhoedd ddeall nac asesu'n llawn effaith bosibl y cynigion ar addysg Gymraeg, ar ddewis ysgol gan rieni, nac ar ddefnydd y Gymraeg yn ehangach.

Nododd yr ymchwiliad fod Asesiad Effaith ar y Gymraeg wedi'i gwblhau gan y Cyngor ym mis Mawrth 2024, ond nad oedd yr asesiad hwnnw wedi'i rannu gyda'r cyhoedd nac wedi'i gynnwys yn y ddogfen ymgynghori. O ganlyniad, ni chafodd yr ystyriaethau a gynhwyswyd ynddo eu cyflwyno fel rhan o'r ymgynghoriad. Gan fod Safonau 91–93 yn ymwneud yn benodol â chynnwys dogfen ymgynghori, ni ffurfiodd yr asesiad hwnnw ran o'r sail ar gyfer asesu cydymffurfiaeth. Dyfarnwyd felly fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â Safonau 91, 92 a 93.

Mae'n peri siom sylweddol bod y methiannau hyn yn dilyn dau ymchwiliad blaenorol (CS098 a CS1093) lle canfuwyd methiannau i gydymffurfio â'r Safonau Lluio Polisi, gan gynnwys mewn perthynas ag ymgynghoriadau ar bolisi cludiant ysgol. Er derbyn tystiolaeth fod y Cyngor wedi gweithredu'r camau gorfodi a osodwyd yn y gorffennol, mae'r ymchwiliad hwn yn dangos nad yw'r Cyngor wedi sicrhau cydymffurfiaeth barhaus wrth lunio dogfennau ymgynghori, ac yn awgrymu nad oes trefniadau digon cadarn ar waith ar hyn o bryd i atal methiannau tebyg rhag codi eto.

O ganlyniad, mae'r Adroddiad hwn yn nodi'r camau pellach y mae'n ofynnol i'r Cyngor eu cymryd er mwyn sicrhau gwelliant parhaus a chydymffurfiaeth gynaliadwy. Ymhlith y rhain, bydd gofyn i'r Cyngor gyflwyno i'r Comisiynydd gopi o'r ddogfen ymgynghori gyntaf a gyhoeddir ar ôl cwblhau'r hyfforddiant gorfodol, ynghyd â thystiolaeth ei fod yn cydymffurfio'n llawn â Safonau 91–93. Oherwydd bod tystiolaeth glir o fethiant parhaus i gydymffurfio, bydd y Comisiynydd hefyd yn rhoi cyhoeddu'rwydd i fethiant y Cyngor i gydymffurfio â'r Safonau hyn.

Safon	Dyfarniad y Comisiynydd	Gweithredu pellach
91	Methiant	Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 1. Rhaid i'r Cyngor ddiweddarau'r ddogfen ganllaw fewnol ar lunio dogfennau ymgynghori a sicrhau ei fod yn cynnwys: • esboniad clir o ofynion Safonau 91–93; • gofyniad i gynnwys ystyriaeth gydwbodol o effeithiau pob cynnig polisi ar y Gymraeg yn y ddogfen ymgynghori ei hun; • canllaw penodol ar y math o ddata, dadansoddiad ac esboniadau gellir eu darparu er mwyn galluogi'r cyhoedd i ddeall effaith posib cynigion polisi. Rhaid rhannu'r canllaw gyda holl staff. Amserlen: O fewn 1 mis o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad penderfynu. 2. Rhaid i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant gorfodol i: • holl staff sy'n llunio polisïau; • staff sy'n llunio neu'n cyfrannu at ddogfennau ymgynghori; • staff sy'n gyfrifol am asesu effaith polisïau ar y Gymraeg. Dylai'r hyfforddiant gynnwys: • esboniad o ofynion Safonau 91–93; • sut i gynnal ystyriaeth gydwbodol o'r Gymraeg; • gwersi i'w dysgu o'r ymgynghoriad dan sylw; • arferion da. Amserlen: Rhaid cwblhau'r hyfforddiant o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad penderfynu. 3. Er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, rhaid i'r Cyngor gyflwyno i'r Comisiynydd: • copi o'r ddogfen ymgynghori gyntaf a gyhoeddir ar ôl cwblhau'r hyfforddiant;
92	Methiant	
93	Methiant	

		tystiolaeth ei bod yn cydymffurfio'n llawn â Safonau 91–93. Amserlen: O fewn 1 mis o ddyddiad agor unrhyw ymgynghoriad. 4. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y Cyngor i gydymffurfio drwy: a) gyhoeddi datganiad cyhoeddus yn nodi bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol; a (b) chyhoeddi'r adroddiad ar yr ymchwiliad a luniwyd mewn perthynas â'r ymchwiliad hwn.
--	--	---

2 Sail yr ymchwiliad

- 2.1 Derbyniwyd cwyn am fethiant honedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynnal Asesiad o Effaith ar y Gymraeg ar adeg ymgynghoriad gwreiddiol mewn perthynas â newid polisi cludiant teithio yn 2024.
- 2.2 Nododd yr achwynydd eu bod wedi cyflwyno'r gŵyn am eu bod eisoes wedi gorfod codi mater tebyg gyda ni ddwywaith o'r blaen. Dywedodd yr achwynydd hefyd eu bod wedi ceisio codi'r un mater gyda'r awdurdod lleol nifer o weithiau yn ystod yr ymgynghoriad, ac fel rhan o'u hymateb i'r ymgynghoriad, ond heb unrhyw lwyddiant.
- 2.3 Ar sail yr uchod, roedd yr ymchwiliad yn ystyried a oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Cyngor) wedi methu â chydymffurfio â'r safonau canlynol:

Safon 91

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar –

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Diwrnod gosod: 30/03/2016

Safon 92

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar –

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Diwrnod gosod: 30/03/2016

Safon 93

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar –

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Diwrnod gosod: 30/03/2016

3 Crynodeb o'r dystiolaeth

Tystiolaeth yr achwynydd

- 3.1 Wrth gyflwyno'u cwyn, roedd yr achwynydd wedi darparu tystiolaeth fanwl, gan gynnwys y ddogfen ymgynghori, dolenni i bapurau Cabinet gohebiaeth y Cyngor at yr Aelod Seneddol, y ddogfen ymgynghori ac e-byst gyda' Cyngor ac ymateb swyddogol yr achwynydd i'r ymgynghoriad.

Tystiolaeth y Cyngor

Ymateb gwreiddiol i'r gwyn

- 3.2 Yn eu hymateb gwreiddiol i ni i'r gwyn, atododd y Cyngor gopi o lythyr yr oedden nhw wedi ei ddarparu i'r achwynydd oedd hefyd wedi cyflwyno cwyn iddynt yn uniongyrchol. O fewn yr ateb hwnnw, esboniodd y Cyngor y cynhaliwyd Asesiad Effaith ar y Gymraeg ar adeg yr ymgynghoriad.
- 3.3 Nodwyd, pan gyhoeddwyd yr ymgynghoriad, fod cyfle wedi'i roi i'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy fynegi eu barn ynghylch effeithiau posibl y polisi ar y Gymraeg. Wrth gynnal yr ymgynghoriad, dywedodd y Cyngor eu bod wedi cydymffurfio'n llawn ag egwyddorion Gunning gan i'r ymgynghoriad gael ei gynnal ar gam ffurfiannol; nododd ei fod yn cynnwys digon o wybodaeth i'w hystyried a rhoddwyd digon o amser i ymateb. Eglurwyd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o 12 wythnos yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
- 3.4 Dywedodd y Cyngor mai bwriad yr ymgynghoriad oedd sicrhau tryloywder a chynhwysiant. At y diben hwnnw, eglurwyd fod y Cyngor wedi cyhoeddi manylion llawn y newidiadau arfaethedig i'r polisi cludiant. Nododd y Cyngor eu bod o'r farn bod y wybodaeth a ddarparwyd yn briodol ac yn ddigonol i alluogi'r cyhoedd i ddeall y cynigion ac i roi adborth ar sail gwybodaeth. Roedd yr ymgynghoriad ar agor am gyfnod o 12 wythnos.
- 3.5 Wrth ymateb i gwestiwn gan yr achwynydd, a nododd fod effaith y polisi yn amlwg gan fod rhieni'n tynnu eu plant allan o addysg Gymraeg oherwydd diffyg cludiant neu ansicrwydd ynghylch trefniadau cludiant, dywedodd y Cyngor fod y polisi yn cydymffurfio â deddfwriaeth genedlaethol. Eglurwyd bod y polisi'n darparu cludiant i ddisgyblion oed statudol ysgol i'w hysgol addas agosaf, yn unol â'r pellteroedd statudol, sef 3 milltir i ddisgyblion ysgol uwchradd a 2 filltir i ddisgyblion ysgol gynradd.
- 3.6 Tynnodd y Cyngor sylw hefyd at y ffaith fod eu polisi'n cynnwys darpariaeth cludiant ar gyfer disgyblion ôl-16 cyfrwng Gymraeg a disgyblion Meithrin, gan nodi nad oedd hynny yn ofynnol yn ôl y gyfraith. Yn ogystal, nodwyd y bydd unrhyw ddisgybl sy'n byw dros y pellter statudol o dair milltir o Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd yn parhau'n gymwys i dderbyn cludiant am ddim o fis Medi 2025, gan gynnwys disgyblion ôl-16.

- 3.7 Dywedodd y Cyngor mai 30 o ddisgyblion fydd ddim yn gymwys bellach i dderbyn cludiant o fis Medi ymlaen. Eglurwyd mai'r pellter cyfartalog y bydd angen i'r disgyblion hynny deithio i Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd yw 2.4 milltir, a disgrifiwyd hyn fel pellter sy'n gyson â'r trothwy o 3 milltir a nodir yn y polisi cenedlaethol a'r polisi lleol. Nodwyd bod y dadansoddiad fesul grŵp blwyddyn fel a ganlyn:
- Blwyddyn 8 – 1
 - Blwyddyn 10 – 8
 - Blwyddyn 11 – 7
 - Blwyddyn 12 – 14
- 3.8 Eglurwyd bod 607 o ddisgyblion yn derbyn cludiant 'bws mawr' i Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd yn ystod y flwyddyn ysgol gyfredol (2024–2025). Ar gyfer y flwyddyn ysgol 2025–2026, sy'n dechrau ym mis Medi, nododd y Cyngor eu bod ar hyn o bryd yn amcangyfrif y bydd 650 o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn cludiant.
- 3.9 Nododd y Cyngor eu bod yn cydnabod y gall unrhyw newid i drefniadau cludiant ysgol gael effaith ar deuluoedd. Fodd bynnag, eglurwyd bod y polisi diwygiedig wedi'i weithredu er mwyn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru, sy'n nodi'r pellteroedd cerdded statudol ar gyfer plant oedran ysgol. Dywedodd y Cyngor fod adolygiad o'r trefniadau cludiant presennol wedi dangos bod y polisi blaenorol yn mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. O ganlyniad, ac fel rhan o'u cyfrifoldeb i sicrhau defnydd teg a chynaliadwy o adnoddau cyhoeddus, nodwyd bod y polisi wedi'i ddiwygio i gyd-fynd yn agosach â'r gofynion statudol.
- 3.10 Dywedodd y Cyngor fod eu swyddogion wedi nodi bod y llwybr i'r Ysgolion Cymraeg yn llwybrau cerdded diogel.
- 3.11 Nododd yr achwynydd fod y methiannau honedig hyn yn tanseilio strategaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, ac yn groes i ddyletswyddau statudol y Cyngor o dan Fesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008, yn enwedig Adran 10, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hyrwyddo mynediad at addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 3.12 Atebodd y Cyngor fod eu polisi presennol yn darparu cludiant am ddim yn ôl disgrisiwn i ddysgwyr ôl-16 sy'n dewis dilyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu ymrwymiad yr awdurdod lleol i gefnogi mynediad at addysg gyfrwng Cymraeg, yn unol â strategaethau cenedlaethol perthnasol, gan gynnwys Cymraeg 2050, sy'n anelu at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn sylweddol ledled Cymru.
- 3.13 Eglurodd y Cyngor ymhellach, er nad yw Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr ôl-16 yn gyffredinol, fod Adran 10 o'r Mesur yn gosod dyletswydd arnynt i hyrwyddo mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg

wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Mesur. O ganlyniad, dywedodd y Cyngor fod y polisi presennol wedi'i gynllunio'n benodol i gyflawni'r ddyletswydd honno.

- 3.14 Wrth ddatblygu'r polisi diwygiedig, dywedodd y Cyngor eu bod wedi cynnal asesiad effaith ar Gydraddoldeb ac ar y Gymraeg, a oedd yn ystyried sut y gallai'r newidiadau arfaethedig effeithio ar ddysgwyr sy'n mynychu ysgol gyfrwng Cymraeg. Nodwyd y bydd y tîm cludiant ysgol yn parhau i fonitro unrhyw effaith y bydd y polisi yn ei chael ar ysgolion cyfrwng Cymraeg. Eglurwyd hefyd fod pob rhiant wedi cael cyfle, fel rhan o'r broses ymgynghori, i fynegi eu barn ynghylch y polisi newydd.

Ymateb i'n cais am wybodaeth

- 3.15 Cyflwynwyd Cais am Wybodaeth i'r Cyngor, a darparodd y Cyngor yr wybodaeth a nodir isod mewn ymateb.
- 3.16 Eglurwyd bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal gan gwmni arolygon annibynnol. Derbyniodd ymatebwyr ddogfen yn amlinellu'r newidiadau arfaethedig i'r polisi, ynghyd â dolen ar wahân i gwblhau cwestiynau'r arolwg. Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, nodwyd bod y cwmni wedi cynhyrchu adroddiad yn nodi'r cwestiynau a ofynnwyd a'r ymatebion a dderbyniwyd.
- 3.17 Nodwyd bod cwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u cynhyrchu'n ddigidol, ac unwaith y bydd yr adroddiad wedi'i gyhoeddi, cânt eu tynnu oddi ar y system. O ganlyniad, eglurwyd nad oedd cofnod caled o'r cwestiynau ar gael. Dywedodd y Cyngor, fodd bynnag, eu bod wedi cael gwybod gan swyddogion mai'r cwestiynau canlynol oedd wedi'u gofyn mewn perthynas â'r Gymraeg (cyfieithiad):
- *Carwn wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg ddim yn llai ffafriol na'r Saesneg.*
 - *Pa effeithiau, yn eich barn chi, fyddai'n codi?*
 - *Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg, neu liniaru effeithiau negyddol?*
 - *Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid llunio neu newid y cynigion fel eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol, neu'n cynyddu effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; ar drin y Gymraeg ddim yn llai ffafriol na'r Saesneg; ac yn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?*
- 3.18 Fel rhan o'u hymateb, darparodd y Cyngor hefyd ffeil Excel yn cynnwys yr atebion a dderbyniwyd fel rhan o'r broses ymgynghori.
- 3.19 Dywedodd y Cyngor fod yr adroddiad arolwg a gynhyrchwyd ar eu cyfer yn nodi'r cwestiynau a ofynnwyd a'r ymatebion llawn a dderbyniwyd, ac, yn eu barn hwy, yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau o dan Safonau'r Gymraeg.

4 Canfyddiadau a dyfarniad

Canfyddiadau ar gydymffurfiaeth â safon 91

- 4.1 Ystyriwyd yr holl wybodaeth a gyflwynwyd gan yr achwynydd a'r Cyngor.
- 4.2 Wrth gyflwyno'r gŵyn, darparodd yr achwynydd gopi o'r Ddogfen Ymgynghori dan sylw, sef **Teithio gan Ddysgwyr – Dogfen Ymgynghori (Atodiad 3)**. Deallir bod cwestiynau ymgynghori hefyd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r Ddogfen Ymgynghori, ond nad yw'r dogfennau hynny bellach ar gael. Fodd bynnag, fel rhan o'u hymateb, rhannodd y Cyngor rai o'r cwestiynau a ofynnwyd, ynghyd â ffeil Excel yn cynnwys rhai o'r atebion a dderbyniwyd, sy'n cynnwys gwybodaeth am y cwestiynau a ofynnwyd.
- 4.3 Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn nodi mai diben yr ymgynghoriad oedd casglu barn y cyhoedd a rhanddeiliaid ar y newidiadau arfaethedig i Bolisi Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol/Coleg y Cyngor. Eglurir yn y ddogfen fod y polisi'n cael ei adolygu oherwydd pwysau ariannol, ac y nodir bod y polisi presennol ymhlith y rhai mwyaf hael yng Nghymru. O ganlyniad, nodwyd bod angen asesu pa ddarpariaeth sy'n gynaliadwy yn y tymor hwy.
- 4.4 Eglurir hefyd yn y Ddogfen Ymgynghori fod dyletswydd ar y Cyngor i ddarparu cludiant am ddim lle bo'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i wneud hynny (er enghraifft, ar sail pellter neu angen), ond ei fod hefyd yn darparu gwasanaethau ychwanegol yn ôl ei ddisgresiwn. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ynghylch y gwasanaethau ychwanegol hyn, gan gynnwys pa rai sy'n parhau i fod yn angenrheidiol.
- 4.5 Er nad oes copi o'r cwestiynau ymgynghori ar gael ar ffurf dogfen ar wahân, gan fod y deunyddiau hyn wedi'u cyhoeddi fel rhan o'r ymgynghoriad, rydym wedi ystyried y Ddogfen Ymgynghori, y cwestiynau a rennir gan y Cyngor, a'r wybodaeth ategol, gyda'i gilydd fel un corff o wybodaeth ymgynghori, at ddibenion ystyriaeth o'r Safonau perthnasol.
- 4.6 Nodir mai cyfnod yr ymgynghoriad oedd rhwng 10 Ebrill a 3 Gorffennaf 2024. Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, nodwyd yn y ddogfen y byddai holl adborth y cyhoedd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet, ac y byddai unrhyw newidiadau a gymeradwyir yn dod i rym ar 1 Medi 2025.
- 4.7 O fewn y Ddogfen Ymgynghori, mae'r Cyngor yn amlinellu pump o gynigion i'w hystyried:

- **Cynnig 1**

Cael gwared â chludiant etifeddol ar gyfer pob dysgwr a all elwa ar lwybr cerdded (diogel) penodol y gellir ei ddefnyddio i gerdded i'r ysgol, fel ein bod yn cyd-fynd â'r pellteroedd statudol (sef dwy filltir ar gyfer disgyblion oedran cynradd a thair milltir ar gyfer disgyblion oedran uwchradd).

- **Cynnig 2**

Cael gwared â'r elfen 'brodyr a chwiorydd' a'r elfen 'eisoed yn derbyn' ar gyfer disgyblion.

- **Cynnig 3**

Cael gwared â'r holl gludiant ar gyfer disgyblion Ysgolion Meithrin.

- **Cynnig 4**

Cael gwared â chludiant am ddim i ddysgwyr ôl-16

- **Cynnig 5**

Yn achos rhieni/gofalwyr disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, cynnig 'cyllideb teithio' iddynt, gan gynnig lwfans milltiroedd o 45c y filltir.

4.8 Mae Safonau 91, 92 a 93 yn gosod gofynion penodol ar sefydliadau cyhoeddus wrth gyhoeddi dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi. Yn benodol, mae'r Safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddogfennau o'r fath ystyried ac i geisio barn ynghylch yr effeithiau posibl (boed yn gadarnhaol neu'n andwyol) y gallai'r penderfyniad polisi eu cael ar y Gymraeg a'r cyfleoedd i'w defnyddio. Nodir bod y Safonau hyn yn berthnasol i ddogfennau ymgynghori yn unig.

4.9 O dan Safon 91, pan fydd sefydliad cyhoeddus yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar:

(a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg; a

(b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

4.10 Er mwyn i'r ddogfen ymgynghori gydymffurfio felly, mae'n rhaid bodloni dau ofyniad penodol.

4.11 Er mwyn i ddogfen ymgynghori gydymffurfio â Safon 91, rhaid bodloni dau ofyniad penodol:

- yn gyntaf, rhaid i'r sefydliad ystyried yr effeithiau posibl; ac
- yn ail, rhaid iddo geisio barn ynghylch yr effeithiau hynny.

4.12 Mae'r Cod Ymarfer yn nodi ym mharagraff 5.1.14:

Rhaid i gorff gynnwys cwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori sy'n gofyn am ymateb iddynt. Disgwylir i gorff roi sylw dyledus i unrhyw wybodaeth a gesglir yn ystod y broses hon wrth wneud y penderfyniad polisi, fel y byddai'r corff yn gweithredu ar unrhyw ganlyniadau sy'n deillio o'r ymgynghoriad.'

- 4.13 Yn yr achos hwn, er ei bod yn ymddangos bod Asesiad Effaith ar y Gymraeg wedi'i gwblhau gan y Cyngor ym mis Mawrth 2024, ni chafodd yr asesiad hwnnw ei gynnwys gyda'r ddogfen ymgynghori, nac ei rannu gyda'r cyhoedd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Yn ogystal, ni chafodd yr ystyriaethau a nodwyd yn yr asesiad eu hadlewyrchu yn nhestun y ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd.
- 4.14 O ganlyniad, hyd yn oed os yw'r Cyngor wedi ystyried effaith y cynigion ar y Gymraeg yn gydwobodol fel rhan o'r Asesiad Effaith hwnnw, ni chafodd yr ystyriaethau hynny eu cyflwyno na'u rhannu gyda'r cyhoedd fel rhan o'r broses ymgynghori. Felly, nid yw'r Asesiad Effaith hwnnw yn ffurfio rhan o'n hystyriaethau wrth asesu cydymffurfiaeth â'r safonau sy'n ymwneud â dogfennau ymgynghori sy'n destun yr ymchwiliad hwn.
- 4.15 Ar 12 Mehefin 2024, tynnodd yr achwynydd sylw'r Cyngor at y ffaith nad oedd yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg wedi'i ddarparu fel rhan o'r ddogfen ymgynghori wreiddiol. Mewn ymateb, nododd swyddog y Cyngor fod yr Asesiad Effaith llawn i'w gyhoeddi fel rhan o bapurau'r Cabinet, er mwyn cefnogi penderfyniad y Cabinet ar y cynigion polisi.
- 4.16 Cyfathrebodd yr achwynydd dair gwaith pellach gyda swyddog Cludiant yr awdurdod lleol i ofyn am gopi o'r Asesiad Effaith. Mewn ymateb ar 25 Mehefin 2024, nododd y swyddog nad oedd dyletswydd gyfreithiol ar yr awdurdod lleol i gyhoeddi Asesiad Effaith ar y Gymraeg ochr yn ochr â'r ymgynghoriad. Nododd y swyddog hefyd fod y Cyngor o'r farn bod eu dyletswyddau o dan Safonau 91–93 wedi'u bodloni drwy gynnwys cwestiynau penodol yn y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, gan ofyn am farn ar effaith y cynigion ar y Gymraeg.
- 4.17 Dylid nodi nad yw'n ofyniad penodol o dan Safonau'r Gymraeg i gorff gyhoeddus gynnal Asesiad Effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r broses ymgynghori. Y gofyniad statudol o dan Safonau 91–93 yw bod y ddogfen ymgynghori ei hun yn ystyried ac yn ceisio barn ynghylch effaith y cynigion ar y Gymraeg.
- 4.18 Fodd bynnag, yn yr achos hwn, mae'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu pwrpas yr ymgynghoriad a'r cynigion arfaethedig yn unig. Nid oes ynddi unrhyw drafodaeth, yn unol â gofynion Safonau 91–93, o'r effeithiau posibl y gallai'r gwahanol gynigion eu cael ar y Gymraeg, nac o sut y gellid llunio neu addasu'r cynigion er mwyn cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau andwyol.
- 4.19 Yn achos Tribiwnlys y Gymraeg TYG/WLT/22/01, dyfarnwyd nad oes modd i gorff cyhoeddus gyfiawnhau ystyriaeth arwynebol o'r Gymraeg drwy ddadlau bod y penderfyniad polisi mewn "cyfnod ffurfiannol". Nododd y Tribiwnlys nad oes modd gohirio ystyriaeth gydwobodol o effaith penderfyniad ar y Gymraeg tan gam diweddarach yn y broses. Yn yr achos hwnnw, dyfarnwyd ei bod yn annigonol i ohirio Asesiad laith llawn tan ar ôl yr ymgynghoriad cyhoeddus, gan fod yr effeithiau andwyol ar y Gymraeg yn bosibilrwydd gwirioneddol, ac nid yn ddamcaniaethol.
- 4.20 O ganlyniad, roedd disgwyliad clir ar y Cyngor i wneud ymdrech gydwobodol o fewn eu dogfen(nau) ymgynghori i ystyried effeithiau'r opsiynau ar y Gymraeg. Yn achos TYG/WLT/2022/01, nododd y Tribiwnlys:

‘...mae’r Tribiwnlys yn derbyn y diffiniad a fabwysiadwyd gan y Comisiynydd pan fydd yn datgan ei bod yn disgwyl ymdrech gydwybodol ar ran y Cyngor i ystyried effeithiau ei gynnig ar y Gymraeg ym mhob un o’r ffyrdd sy’n ofynnol gan y Safonau priodol, 91, 92 a 93.’

4.21 Yn yr achos hwnnw, cytunodd y Tribiwnlys fod angen mwy na thrafodaeth arwynebol ar effaith y cynnig ar y Gymraeg. Dyfarnwyd y dylai’r Cyngor fod wedi cynnal trafodaeth wirioneddol ar yr effaith, gan fod penderfyniadau polisi sy’n ymwneud ag addysg yn gallu cael effeithiau cymhleth ar ddefnydd o’r Gymraeg mewn cymunedau, ac ar agweddau tuag at y Gymraeg ar lefel leol.

4.22 Mae Rhan 2 o Atodlen 2 Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn nodi:

‘Yn Rhan 1 o’r Atodlen hon mae cyfeiriad at effeithiau cadarnhaol neu andwyol yn gyfeiriad at effeithiau o’r fath boed yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol.’

4.23 Yn yr achos hwn, nid oes unrhyw ystyriaeth o’r fath wedi’i chofnodi o fewn y ddogfen ymgynghori, fel y gallai’r cyhoedd ddod i gasgliad gwybodus ynghylch effaith y gwahanol opsiynau ar y Gymraeg. Os mai pwrpas Safonau 91–93 yw sicrhau bod sefydliadau cyhoeddus yn ymgynghori’n briodol gyda’r cyhoedd ynghylch effeithiau ar y Gymraeg — drwy nodi’n eglur pa effeithiau a ystyriwyd, a thrwy roi cyfle i’r cyhoedd ystyried a mynegi barn ar y materion hynny — nid ydym o’r farn bod y dogfennau a gyhoeddwyd gan y Cyngor yn cyflawni’r diben hwnnw.

4.24 Mae’r gofyniad i “ystyried” yn golygu bod y dogfennau ymgynghori yn amlinellu’r materion a’r agweddau perthnasol y mae’r Cyngor yn eu hystyried. Mae hyn yn gyson ag ail egwyddor Gunning, sef bod yn rhaid i’r broses ymgynghori *“gynnwys digon o resymau a gwybodaeth ar gyfer cynigion penodol i alluogi ystyriaeth ac ymateb deallus”*.

4.25 Yn yr achos hwn, byddwn wedi disgwyl gweld dadansoddiad mwy manwl o’r effeithiau posibl sy’n gysylltiedig â’r pump o gynigion a gyflwynwyd. Nid oes, er enghraifft, unrhyw ddata o fewn y ddogfen ymgynghori sy’n galluogi darllenwyr i ddeall maint nac arwyddocâd posibl yr effaith ar y Gymraeg, sy’n cryfhau’r casgliad nad oes ystyriaeth gydwybodol wedi’i rhoi.

4.26 Er nad oes disgwyl i’r Cyngor o dan y Safonau ystyried pob effaith bosibl, nid oes unrhyw wybodaeth wedi’i darparu ynghylch:

- faint o ddysgwyr sy’n derbyn addysg Gymraeg a allai gael eu heffeithio;
- faint o ddysgwyr sy’n astudio drwy gyfrwng y Saesneg neu’n ddwyieithog a allai gael eu heffeithio;
- a yw’r cynigion yn debygol o arwain at ostyngiad yn nifer y dysgwyr sy’n gallu parhau neu ddechrau ar addysg Gymraeg; neu
- a allai’r newidiadau arfaethedig arwain at deuluoedd yn newid eu dewis iaith addysg oherwydd anhawster neu gostau teithio.

- 4.27 Byddai cynnwys gwybodaeth o'r fath wedi cynorthwyo'r Cyngor i roi ystyriaeth lawnach i effaith y cynigion ar y Gymraeg o fewn y ddogfen ymgynghori ei hun.
- 4.28 Mae nifer o'r cynigion — gan gynnwys dileu'r elfen 'brodyr a chwiorydd', dileu'r elfen 'eisoed yn derbyn', dileu cludiant i ddisgyblion meithrin, a dileu cludiant am ddim i ddysgwyr ôl-16 — â'r potensial i gael effaith sylweddol ar ddewis teuluoedd o ran addysg Gymraeg, ac yn ehangach ar gymunedau'r sir. Fodd bynnag, ar sail y wybodaeth a ddarparwyd yn y ddogfen ymgynghori yn unig, mae'n amhosibl i randdeiliaid ddeall graddfa neu natur unrhyw effaith bosibl, neu hyd yn oed a fyddai unrhyw effaith o gwbl, gan nad oes unrhyw ystyriaeth gydwybodol wedi'i chofnodi. Er y gallai'r Cyngor fod wedi dod i'r casgliad nad oedd effaith negyddol, nid oes unrhyw dystiolaeth i ategu hynny wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori.
- 4.29 Rwy'n derbyn bod y Cyngor wedi cynnwys cwestiynau perthnasol yn y broses ymgynghori i geisio barn y cyhoedd ar effaith y cynigion ar y Gymraeg, ac felly bod ymdrech wedi'i gwneud i gydymffurfio â'r elfen "ceisio barn" o'r Safonau.
- 4.30 Fodd bynnag, gofynnwyd i'r cyhoedd fynegi barn heb iddynt weld na ddeall ystyriaethau'r Cyngor ei hun o effeithiau posibl y cynigion ar y Gymraeg. O ganlyniad, ni chafodd y cyhoedd y wybodaeth angenrheidiol i allu ymateb yn llawn a gwybodus i'r ymgynghoriad.
- 4.31 Nododd yr achwynydd hefyd fod ymatebion y Cyngor i rieni, mudiadau, cynghorwyr ac Aelodau o'r Senedd — sy'n honni bod y Cyngor wedi gweithredu'n gywir — yn gamarweiniol. Er nad oes gofyniad o dan y Safonau i gynnal Asesiad Effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r ymgynghoriad ei hun, ac er nad yw'r ffaith nad yw Asesiad Effaith wedi'i rannu ynddo'i hun yn dystiolaeth o fethiant, mae'r methiant yma yn deillio o'r diffyg ystyriaeth gydwybodol o fewn y ddogfen ymgynghori ei hun.
- 4.32 Wrth ystyried y camau priodol yn sgil dyfarniad o fethiant yn yr achos hwn, mae'n briodol hefyd i ni gyfeirio at achosion blaenorol sy'n ymwneud â Safonau Llundain Polisi, gan gynnwys CS1093 a CS098, a godwyd gan yr achwynydd.
- 4.33 Yn 2023, dyfarnodd y Comisiynydd, fel rhan o ymchwiliad CS1093, fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â Safonau Llundain Polisi 88–90 wrth ddiwygio Polisi Derbyniadau Ysgolion 2020–2021. Yn yr achos hwnnw, er bod addysg Gymraeg yn ganolog i'r diwygiad, nid oedd dystiolaeth bod y Cyngor wedi rhoi ystyriaeth gydwybodol i effeithiau'r penderfyniad ar y Gymraeg.
- 4.34 Ni osodwyd Camau Gorfodi yn yr ymchwiliad hwnnw, gan fod ymchwiliad arall (CS098) eisoes wedi'i gynnal mewn perthynas ag ymgynghoriad a methiant honedig i gydymffurfio â Safonau 91–93. Yn dilyn canfod methiant yn CS098, gosodwyd Camau Gorfodi ar y Cyngor, gan gynnwys gofynion i gryfhau canllawiau mewnol, darparu hyfforddiant gorfodol i staff, a sicrhau bod dogfennau ymgynghori yn cynnwys ystyriaeth gydwybodol o effaith ar y Gymraeg, yn ogystal â chwestiynau penodol i geisio barn.
- 4.35 Derbyniwyd dystiolaeth bod y camau hynny wedi'u gweithredu, ac o ganlyniad roedd y Comisiynydd o'r farn bod gan y Cyngor ganllaw pwrpasol i'w defnyddio

wrth lunio polisiau a dogfennau ymgynghori, ac y gallai'r Cyngor gryfhau ei brosesau gwneud penderfyniadau drwy ddilyn y canllaw hwnnw'n briodol.

- 4.36 Fodd bynnag, mae'n peri pryder sylweddol bod mater tebyg wedi codi eto, yn enwedig o ystyried bod y camau gorfodi blaenorol yn gofyn yn benodol am hyfforddiant staff ar gydymffurfio â Safonau 91–93 mewn perthynas â pholisiau addysg. Mae hyn yn awgrymu, er gwaethaf y canllawiau a'r hyfforddiant, fod methiant parhaus i sicrhau bod dogfennau ymgynghori'n cydymffurfio'n llawn â'r Safonau, ac felly bod angen camau pellach i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus yn y dyfodol.

Dyfarniad ar gydymffurfiaeth â safon 91

- 4.37 Er bod y Cyngor wedi cynnwys cwestiwn penodol yn y ffurflen ymateb i geisio barn am effaith y cynigion ar y Gymraeg, nid oedd ystyriaeth ddigonol o effeithiau'r opsiynau a gynigiwyd wedi'i chynnwys yn nogfennau ymgynghori'r Cyngor. Yn benodol, nid oedd unrhyw ddadansoddiad o'r effaith bosibl ar addysg Gymraeg, nac unrhyw wybodaeth berthnasol a fyddai wedi galluogi dealltwriaeth ystyrlon o'r goblygiadau posibl. Mae'r diffyg hwn o wybodaeth berthnasol yn cryfhau'r casgliad nad oedd ystyriaeth gydwybodol wedi'i rhoi i effaith y cynigion ar y Gymraeg.
- 4.38 O ganlyniad i'r diffyg dadansoddiad hwn, nid oedd modd i'r cyhoedd ddeall na gwerthuso'n llawn effaith y cynigion ar y Gymraeg wrth ymateb i'r ymgynghoriad. Yn unol â hynny, fy nyfarniad yw bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â Safon 91.

Canfyddiadau ar gydymffurfiaeth â safon 92

- 4.39 Yn unol â Safon 92, pan fydd sefydliad cyhoeddus yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau mwy cadarnhaol, ar:

(a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg; a

(b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- 4.40 Fel yn achos Safon 91, er mwyn i ddogfen ymgynghori gydymffurfio â Safon 92, rhaid bodloni dau ofyniad penodol:

- yn gyntaf, rhaid i'r corff ystyried yr effeithiau posibl; ac
- yn ail, rhaid iddo geisio barn ynghylch yr effeithiau hynny.

- 4.41 Mae llawer o'r trafodaethau uchod ynghylch yr angen i geisio barn ac i ystyried effeithiau posibl yn gydwybodol yr un mor berthnasol yma, ac nid oes angen eu hailadrodd. O'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y Cyngor, mae'n amlwg bod ymdrech wedi'i gwneud i geisio barn y cyhoedd ar sut y gellid llunio neu

addasu'r cynigion i sicrhau effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg, gan gynnwys drwy ofyn y cwestiwn canlynol:

Please also explain how you believe the proposals could be formulated or changed so as to: have positive effects or increased positive effects on opportunities for people to use the Welsh language; on treating the Welsh language no less favourably than the English language; and ensure there are no adverse effects on opportunities for people to use the Welsh language.

- 4.42 Fodd bynnag, nid oes ystyriaeth gydwybodol, yn unol â Safon 92, wedi'i chynnwys o fewn dogfennau ymgynghori'r Cyngor eu hunain. Dylai'r ddogfen neu'r dogfennau ymgynghori fod wedi cynnwys trafodaeth eglur o'r opsiynau dan ystyriaeth, ynghyd ag ystyriaeth gydwybodol o sut y gellid llunio neu addasu'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dyfarniad ar gydymffurfiaeth â safon 92

- 4.43 Er bod y Cyngor wedi cynnwys cwestiynau penodol yn y ffurflen ymateb i geisio barn y cyhoedd am effaith y cynigion ar y Gymraeg, nid oedd ystyriaeth ddigonol o sut y gellid llunio neu addasu'r opsiynau o dan ystyriaeth, er mwyn sicrhau effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar y Gymraeg, wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori ei hun. O ganlyniad, dyfarnir fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â Safon 92.

Canfyddiadau ar gydymffurfiaeth â safon 93

- 4.44 Yn unol â Safon 93, pan fydd sefydliad cyhoeddus yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar:

(a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg; a

(b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- 4.45 Fel yn achos Safonau 91 a 92, er mwyn i ddogfen ymgynghori gydymffurfio â Safon 93, rhaid bodloni dau ofyniad penodol:

- yn gyntaf, rhaid i'r corff ystyried yr effeithiau posibl; ac
- yn ail, rhaid iddo geisio barn ynghylch yr effeithiau hynny.

- 4.46 Mae llawer o'r trafodaethau uchod ynghylch yr angen i geisio barn ac i ystyried effeithiau posibl yn gydwybodol yr un mor berthnasol yma, ac nid oes angen eu hailadrodd. Yn unol â Safon 93, dylai'r ddogfen neu'r dogfennau ymgynghori fod wedi cynnwys ystyriaeth gydwybodol o effeithiau'r opsiynau a gynigiwyd, ynghyd â thrafodaeth eglur o sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael

effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dyfarniad ar gydymffurfiaeth â safon 93

- 4.47 Er bod y Cyngor wedi cynnwys cwestiwn penodol yn y ffurflen ymateb i geisio barn y cyhoedd am effaith y cynigion ar y Gymraeg, nid oedd ystyriaeth ddigonol o sut y gellid llunio neu addasu'r opsiynau o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar y Gymraeg. O ganlyniad, nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio'n llawn â gofynion Safon 93.

5 Gweithredu pellach

- 5.1 Mae'n peri siom sylweddol bod y methiannau hyn yn dilyn dau ymchwiliad blaenorol (CS098 a CS1093) lle canfuwyd methiannau i gydymffurfio â'r Safonau Llundain Polisi, gan gynnwys mewn perthynas ag ymgynghoriadau ar bolisi cludiant ysgol. Er derbyn tystiolaeth fod y Cyngor wedi gweithredu'r camau gorfodi a osodwyd yn y gorffennol, mae'r ymchwiliad hwn yn dangos nad yw'r Cyngor wedi sicrhau cydymffurfiaeth barhaus wrth lunio dogfennau ymgynghori, ac yn awgrymu nad oes trefniadau digon cadarn ar waith ar hyn o bryd i atal methiannau tebyg rhag codi eto.
- 5.2 Er mwyn atal y methiannau i gydymffurfio rhag parhau neu gael ei ailadrodd, rwyf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau canlynol:

Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

1. Rhaid i'r Cyngor ddiweddarau'r ddogfen ganllaw fewnol ar lunio dogfennau ymgynghori a sicrhau ei fod yn cynnwys:
 - esboniad clir o ofynion Safonau 91–93;
 - gofyniad i gynnwys ystyriaeth gydwybodol o effeithiau pob cynnig polisi ar y Gymraeg yn y ddogfen ymgynghori ei hun;
 - canllaw penodol ar y math o ddata, dadansoddiad ac esboniadau gellir eu darparu er mwyn galluogi'r cyhoedd i ddeall effaith posib cynigion polisi.

Rhaid rhannu'r canllaw gyda holl staff.

Amserlen: O fewn 1 mis o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad penderfynu.

2. Rhaid i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant gorfodol i:
 - holl staff sy'n llunio polisïau;
 - staff sy'n llunio neu'n cyfrannu at ddogfennau ymgynghori;
 - staff sy'n gyfrifol am asesu effaith polisïau ar y Gymraeg.

Dylai'r hyfforddiant gynnwys:

- esboniad o ofynion Safonau 91–93;
- sut i gynnal ystyriaeth gydwybodol o'r Gymraeg;
- gwersi i'w dysgu o'r ymgynghoriad dan sylw;

- arferion da.

Amserlen: Rhaid cwblhau'r hyfforddiant o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad penderfynu.

3. Er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, rhaid i'r Cyngor gyflwyno i'r Comisiynydd:

- copi o'r ddogfen ymgynghori gyntaf a gyhoeddir ar ôl cwblhau'r hyfforddiant;
- tystiolaeth ei bod yn cydymffurfio'n llawn â Safonau 91–93.

Amserlen: O fewn 1 mis o ddyddiad agor unrhyw ymgynghoriad.

4. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y Cyngor i gydymffurfio drwy:

- a) gyhoeddi datganiad cyhoeddus yn nodi bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol; a
- (b) chyhoeddi'r adroddiad ar yr ymchwiliad a luniwyd mewn perthynas â'r ymchwiliad hwn.

- 5.3 Os ydych yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad yn yr hysbysiad penderfynu hwn, caiff y Comisiynydd wneud cais i lys sirol am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i chi gydymffurfio.

Atodiad 1: Cylch gorchwyl yr ymchwiliad

Cylch gorchwyl ymchwiliad CS1376

Sefydliad dan ymchwiliad

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Amheuaeth o fethiant i gydymffurfio

Mae'r wybodaeth isod yn creu amheuaeth bod y corff wedi methu â chydymffurfio â safonau'r Gymraeg:

Mae cwyn wedi ei chyflwyno ynghylch methiant honedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ystyried ac i geisio barn am effeithiau ar y Gymraeg wrth gyhoeddi dogfen ymgynghori ar newid polisi cludiant teithio yn 2024.

Bydd yr ymchwiliad yn dyfarnu a yw'r corff wedi methu â chydymffurfio â'r gofynion canlynol:

Safon 91

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar –

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Diwrnod gosod: 30/03/2016

Safon 92

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar –

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Diwrnod gosod: 30/03/2016

Safon 93

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar –

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Diwrnod gosod: 30/03/2016

Amserlen yr ymchwiliad

Canllaw yw'r amserlen sy'n dangos beth yw ein nod. Dylech nodi y gallai'r gwir gyfnodau amrywio gan eu bod yn ddibynnol ar wahanol ffactorau.

Cam yn yr ymchwiliad	Cyfnod a ganiateir
Comisiynydd yn cychwyn ymgynghori ar y cylch gorchwyl.	
Derbyn sylwadau ar y cylch gorchwyl drafft	10 diwrnod gwaith yn dilyn rhoi'r cylch gorchwyl drafft
Comisiynydd yn rhoi'r cylch gorchwyl terfynol, ac (os yn berthnasol) yn rhoi hysbysiad tystiolaeth i'r corff	10 diwrnod gwaith yn dilyn derbyn sylwadau am y cylch gorchwyl drafft
Derbyn ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth (os yn berthnasol)	20 diwrnod gwaith yn dilyn rhoi'r hysbysiad tystiolaeth
Comisiynydd yn ymgynghori ar adroddiad yr ymchwiliad.	
Derbyn sylwadau ar yr adroddiad drafft.	20 diwrnod gwaith yn dilyn cychwyn y cyfnod ymgynghori.
Comisiynydd yn dyfarnu yn terfynol ac yn rhannu'r adroddiad a hysbysiad penderfynu terfynol.	25 diwrnod gwaith yn dilyn derbyn sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Atodiad 2: Gwybodaeth am yr hawl i apelio

Apelio yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd:

Gwybodaeth i sefydliadau

Os yw'r Comisiynydd yn dyfarnu eich bod wedi methu â chydymffurfio â safon, gallwch apelio dan adran 95 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar y sail bod:

- y Comisiynydd yn anghywir i ddyfarnu bod methiant wedi bod
- camau gorfodi sydd wedi eu gosod gan y Comisiynydd yn afresymol neu'n anghymesur.

Gwybodaeth i unigolion

Os yw'r Comisiynydd yn dyfarnu mewn ymchwiliad nad yw sefydliad wedi methu â chydymffurfio â safon, gallwch apelio'r dyfarniad hwnnw dan adran 99 y Mesur

Gwybodaeth gyffredinol

Tribiwnlys y Gymraeg sy'n gyfrifol am wrando apeliadau yn erbyn canlyniad ymchwiliad gan y Comisiynydd.

Rhaid i unrhyw gais i'r Tribiwnlys gael ei wneud yn ysgrifenedig o fewn 28 diwrnod. Er hynny, gall y Tribiwnlys dderbyn ceisiadau y tu allan i'r amserlen hon os yw'n fodlon bod rheswm da dros yr oedi.

Mae gan y Tribiwnlys bwerau i gadarnhau neu ddiddymu dyfarniadau'r Comisiynydd ac i amrywio unrhyw gamau gorfodi.

Mae mwy o wybodaeth ynghylch y broses apelio i'w weld ar wefan Tribiwnlys y Gymraeg:

[Croeso i | Tribiwnlys y Gymraeg \(llyw.cymru\)](http://llyw.cymru).